Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygio) 2022** |
| **DYDDIAD** | **9 Tachwedd 2022** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS**<br>**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

Bydd Aelodau'r Senedd yn dymuno bod yn ymwybodol fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru. Gofynnodd y cyn-Weinidog Gwladol dros Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd, Victoria Prentis AS, am fy nghaniatâd i wneud Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygio) 2022.

Bydd yr Offeryn Statudol (OS) uchod yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth arfer pwerau a roddir gan adran 8 o Ddeddf Amaethyddiaeth 21 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, yn ogystal ag adrannau 50(3) a 53(1) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020.

Mae'r OS yn gwneud diwygiadau gweithredu i fynd i'r afael â diffygion a sicrhau eglurder i ddeddfwriaeth uniongyrchol ganlynol yr UE a deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE sy'n ymwneud â safonau marchnata ar gyfer cynhyrchion amaethyddol yng Nghymru a Lloegr:

- Diwygio Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007
- Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 543/2008
- Diwygio Rheoliad (UE) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor
- Diwygio Rheoliadau Ardystio Hopys 1979

Er effeithlonrwydd ac hwylustod, ac i sicrhau cysondeb a chydlyniad y llyfr statud, rwyf o'r farn ei bod yn briodol cydsynio i'r OS o dan y teitl uchod. Rwy'n gwneud hynny gan gadw'r gallu i ymwahanu yn y dyfodol yn unol â'n cymhwysedd datganoledig.

Cafodd y rheoliadau eu gosod gerbron Senedd y DU ar 13 Tachwedd 2022 a byddant yn dod i rym 21 o ddiwrnodau yn ddiweddarach.